# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2) 05-06 p.2

### Dyddiad: 15 Mawrth 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Iaith Pawb: ‘Sut y mae’r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Hyrwyddo’r Gymraeg’

#### Diben

Rhoi’r newyddion diweddaraf i’r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu ‘Iaith Pawb’ o fewn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

#### Y Cefndir

Iaith Pawb (2003) yw’r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog. Ac yntau wedi’i strwythuro yn dair rhan, mae gan Iaith Pawb dros 60 o bwyntiau Gweithredu. Mae pob un o Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad a’u swyddogion yn rhannu’r cyfrifoldeb dros y camau hyn a thros nodi a mynd i’r afael â materion yr iaith Gymraeg yn eu meysydd polisi.

Yn 2004-05 monitrodd Uned yr Iaith Gymraeg (WLU) gynnydd a pherfformiad yn erbyn y pwyntiau gweithredu yn Iaith Pawb a’r ymrwymiadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg.

#### Diweddariad

Polisïau ar draws yr Adran

Ymrwymiad yr Adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yw cefnogi a hyrwyddo dwyieithrwydd a rhoi statws cyfartal i’r Gymraeg a’r Saesneg yn ein holl waith. Bydd prif ffrydio’r iaith yn dod yn rhan annatod o bopeth yr ydym yn ei wneud gyda phob agwedd ar y Cynllun yn ymwreiddio yn ein gwaith. Rydym yn dangos hyn yn y ffyrdd canlynol:

Mae ystyriaethau’r Gymraeg yn cael eu prif ffrydio yn ein gwaith datblygu polisi.

Ateb yr holl ohebiaeth sy’n dod i law yn Gymraeg trwy ateb yn Gymraeg.

Mae gan y staff lofnod awtomatig dwyieithog.

Mae gan staff atebion dwyieithog pan fyddant allan o’r swyddfa.

Mae’r holl bapur brig yn ddwyieithog.

Sicrhau bod pob Hysbysiad, Gorchymyn a Ffurflen a gyhoeddir yn y wasg leol neu a gyflwynir i unigolion yn ddwyieithog.

Annog yr holl staff i roi cyfarchion dwyieithog yn ein swyddfeydd yng Nghymru.

Darparu’r holl daflenni a fideos hyrwyddo, ffurflenni cais, llyfrynnau, arwyddion, etc. a deunydd hyrwyddo mewn stondinau mewn arddangosfeydd cyhoeddus a digwyddiadau yn Gymraeg.

Mae ein holl wefannau yn ddwyieithog, gan gynnwys parthau Cymraeg a Saesneg.

Darparu gwasanaethau ysgrifenyddol i gyfarfodydd yn unol ag ymrwymiadau’r Cynllun.

Mae gan yr Adran gynllun Adrannol drafft ar gyfer 2006-07 a thrwy hwn mae’n sicrhau’r canlynol ar hyn o bryd:

Bod materion y Gymraeg yn dod yn rhan annatod o ddatblygu polisi a chyflwyno gwasanaethau ar draws yr Adran.

Bod gofynion Cynllun yr Iaith Gymraeg yn cael eu cynnwys fel eitem safonol pan fydd prosiectau newydd yn cael eu cychwyn er mwyn i’r rhain gael eu nodi ar y cychwyn cyntaf a’u hadeiladu i mewn i gynlluniau amserlenni prosiectau.

Bydd Adrannau Whitehall a chyrff allanol eraill y mae’r Adran yn ymwneud â hwy yn cael eu hatgoffa lle y bo’n briodol am eu cyfrifoldebau a’u gofynion o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

Caiff y cynnydd yn erbyn ymrwymiadau’r Adran mewn perthynas ag Iaith Pawb eu monitro fel rhan o adolygiadau monitro canol a diwedd blwyddyn.

Ar hyn o bryd mae gan yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 50 o swyddogion sy’n siarad Cymraeg o gyfanswm o 420 o aelodau staff ar draws 24 o swyddfeydd yng Nghymru; mae sawl aelod o’r staff wrthi’n dysgu’r iaith ac mae eraill ar restr aros i’w dysgu.

Cyflwynwyd papur yn rhoi manylion sut y caiff yr egwyddorion a fynegir yn ‘Iaith Pawb’ eu hintegreiddio ym mhortffolio’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, yn enwedig o ran cynyddu nifer a chanran y bobl sy’n gallu siarad Cymraeg i gyfarfod y Gweinidog â’r sector gwirfoddol ym mis Mai 2005.

## Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau

Yn 2004-5 dewiswyd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau i gael ei monitro yn agos gan Iaith Pawb er mwyn gwerthuso cydymffurfiad yr Is-adran â phwyntiau gweithredu Iaith Pawb. Bu’n ofynnol i’r Gyfarwyddiaeth Gymunedau ddarparu tystiolaeth helaeth am ei hymrwymiad i’r pwyntiau gweithredu a bu’n destun cyfweliadau manwl ac archwiliad gan Iaith Pawb. Y pedwar prif faes a aseswyd gan Iaith Pawb oedd strategaeth, gwasanaeth, staff a systemau. Cafodd yr Is-adran ei graddio ym mhob un o’r prif feysydd hyn. Roedd yr ymarfer yn ddefnyddiol o ran tanlinellu cryfderau a gwendidau penodol ymagwedd y Gyfarwyddiaeth Gymunedau at bwyntiau gweithredu Iaith Pawb. Casglodd Iaith Pawb fod yr Is-adran wedi dangos nifer o gryfderau wrth roi’r pwyntiau gweithredu ar waith. Tanlinellwyd rhai o’r cryfderau hyn fel a ganlyn:

Darparu canllawiau i Bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ar y Gymraeg.

Ymwybyddiaeth o brif elfennau’r cynllun sy’n berthnasol i’r Is-adran (darparu dogfennau dwyieithog).

Cynnwys yr iaith Gymraeg ym meini prawf asesu’r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol a’r Gronfa Adfywio Ffisegol.

Defnyddio’r iaith Gymraeg fel rhan o’r drefn wrth ymdrin â galwadau ffôn a gohebiaeth (heb ddibynnu ar gyfieithwyr) yn swyddfeydd Caerfyrddin a Chaernarfon.

Yn ogystal â nodi cryfderau niferus, tanlinellodd Iaith Pawb hefyd rai meysydd yr oedd arnynt angen gwaith pellach. Awgrymwyd y gallai cynnwys cyfeiriadau at faterion yr iaith Gymraeg / Iaith Pawb yn y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol a chynhyrchu Cynllun Gweithredu iaith Gymraeg ar gyfer yr Is-adran wella record yr Is-adran o ran cydymffurfio. Argymhelliad pellach oedd cydgysylltu archwiliad er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ym mhob cynllun grant, arian craidd a chynllun Cymunedau @ Ei Gilydd. Ar y cyd â chryfderau presennol sylweddol yr Is-adran wrth fodloni pwyntiau gweithredu Iaith Pawb, byddai’r gwelliannau hyn yn codi perfformiad y Gyfarwyddiaeth Gymunedau i safon uchel iawn.

## Y Sector Gwirfoddol

Mae swyddogion yn Uned y Sector Gwirfoddol wrthi’n gweithio mewn partneriaeth â’r sector gwirfoddol a chymunedol er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer bwrw ymlaen â Chynllun y Sector Gwirfoddol. Bydd y Gymraeg yn rhan sylfaenol o hyn.

Mae ffurflenni cais ar gyfer grantiau’r sector gwirfoddol yn ddwyieithog ac yn cynnwys meini prawf yn unol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Un o’r tri phrif maen prawf cymhwyster yw cydraddoldeb ac mae hyn yn cynnwys y Gymraeg. Nid yw gweddill y cais yn cael ei sgorio ond os caiff y meini prawf cymhwyster o ran y Gymraeg eu bodloni. Anogir derbynwyr grant llwyddiannus i osod dangosyddion perfformiad iddynt eu hunain ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog, gwefannau, posteri, etc. Yn

ogystal, os byddai corff yn ceisio ymestyn ei brosiect mewn ardal lle y siaredir Cymraeg yn bennaf byddai'n hanfodol iddo recriwtio cydgysylltydd Cymraeg.

Mae Uned y Sector Gwirfoddol yn darparu arian i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol trwy ei Chronfa Seilwaith. Mae hyn yn galluogi'r cyrff hynny sy'n dymuno cynnal eu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. Mantell Gwynedd, i wneud hynny.

Mae Uned y Sector Gwirfoddol yn sicrhau bod gohebiaeth yn cael ei hateb yn iaith y gohebydd a bod pob hysbyseb, pecyn cais, ffurflen a deunydd ategol arall yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Mae trefniadau ychwanegol hefyd wedi'u sefydlu i ymdrin ag ymholiadau ffôn Cymraeg. Yn yr un modd mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd bob amser yn cael eu darparu yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

## Y Gyfarwyddiaeth Dai

Mae mater colli'r Gymraeg o ardaloedd gwledig Cymru yn un sy'n cael ei ystyried o fewn y Gyfarwyddiaeth yng nghyd-destun Tai Fforddiadwy. Gwraidd y broblem yw bob pobl ifanc nad ydynt yn gallu dod o hyd i dai fforddiadwy yn eu trefi a'u pentrefi brodorol yn allfudo, a bod pobl sy'n gallu fforddio prisiau cynyddol yr eiddo nad ydynt yn siarad Cymraeg yn mewnfudo, a chredir bod hyn yn cyfrannu at ddirywiad yr iaith. Cyhoeddwyd adroddiad ymchwil defnyddiol 'Rôl y System Dai yn y Gymru Wledig', sy'n nodi'r berthynas rhwng y system dai ac economi cefn gwlad Cymru ym mis Ionawr 2006 [Cyswllt gwefan Saesneg yn http://www.housing.wales.gov.uk/rreports.asp?a=39 ac yn Gymraeg yn http://www.tai.cymru.gov.uk/rreports.asp?a=39]. Mae'r Adran hefyd wedi comisiynu adolygiad o berchentyaeth cost isel, a fydd yn cyflwyno adroddiad ar ddechrau'r Haf ac a fydd yn darparu dealltwriaeth well o rôl a photensial perchentyaeth cost isel mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi helpu i ariannu Swyddogion Galluogi ym maes Tai yng Nghefn Gwlad ledled Cymru er mwyn bwrw ymlaen â mentrau penodol i fynd i'r afael â'r problemau tai sy'n wynebu cymunedau gwledig. Mae'r swydd gyntaf yng Nghymru yn cwmpasu Gogledd Sir Fynwy a De Powys, ac mae wedi'i hariannu â'i rheoli gan nifer o randdeiliaid lleol a chenedlaethol gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r diddordeb sylweddol yn y prosiect peilot hwn wedi dylanwadu ar benodi swyddogion galluogi pellach i gwmpasu Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy, a Sir Benfro.

Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer y Rhaglen Grant Rheoli Tai Cymdeithasol ar gyfer 2006/07 mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi cytuno yn ddiweddar i ddarparu arian tuag at brosiect a fydd yn datblygu fframwaith ar gyfer sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o Swyddogion Galluogi ym maes Tai yng Nghefn Gwlad sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd Gweinidogion y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater pan fydd y prosiect hwn yn cyflwyno adroddiad tua diwedd 2006.

Ymgynghorwyd ar y Pecyn Cymorth Tai Fforddiadwy drafft yn ail hanner 2005. Canolbwynt y ddogfen oedd ym mha ffyrdd y gall swyddogion tai a chynllunio yr awdurdodau lleol weithio i sicrhau bod

cymaint o dai fforddiadwy â phosibl yn cael eu cyflwyno yn eu hardaloedd drwy osod rhwymedigaethau cynllunio trwy gytundebau adran 106 ar gyfer datblygwyr. Cyhoeddir fersiwn derfynol y Pecyn Cymorth yn Ebrill/Mai 2006 a bydd yn adlewyrchu'r sylwadau ymgynghori a ddarparwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae mater tai fforddiadwy yng nghefn gwlad Cymru yn effeithio ar y rhai sy'n dewis rhentu a'r rhai a hoffai brynu. O safbwynt y sector rhentu, mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio i gynyddu faint o dai cymdeithasol a ddatblygir trwy gymdeithasau tai, a cheisio cyfyngu ar y nifer o eiddo a gollir trwy'r hawl i brynu. O ran perchentyaeth, mae prynu cartref yn cynyddu'r nifer o bobl ifanc yn y farchnad ganolradd sy'n gallu prynu cartref yn yr ardal lle cawsant eu magu ac o fewn y gymuned Gymraeg. Bydd darparu cymorth tuag at ddatblygu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol i ddarparu cartrefi fforddiadwy am byth mewn ardaloedd gwledig hefyd yn helpu i fynd i'r afael â'r mater.

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi arddel ymagwedd gyfannol Iaith Pawb ac mae wrthi'n chwarae rhan yn y broses o ymwreiddio diwylliant dwyieithog yn y corff a phrif ffrydio'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer pob un o feysydd ei fusnes. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ymestynnol ac uchelgeisiol, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn Chwefror 2005. Y canolbwynt ar gyfer y Gwasanaeth dros y ddwy flynedd nesaf fydd parhau i wella ar ansawdd a chysondeb gwasanaethau'r Gymraeg sydd ar gael i gymunedau'r De a gwella yn barhaus ein ffyrdd o reoli, monitro a gwerthuso'r Cynllun.

Mae'r Gwasanaeth wedi cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn ei fusnes yn y meysydd canlynol:

## Diogelwch Cymunedol

· Cyflwyniadau diogelwch tân i ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a grwpiau cymunedol eraill sy'n siarad Cymraeg.

· Yr holl daflenni, posteri a deunydd darllen arall yn ymwneud â gwybodaeth am ddiogelwch yn cael eu cyhoeddi gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr un ddogfen (ac eithrio rhai o gyhoeddiadau ODPM a gynhyrchir o hyd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân).

· Asesiadau Risg Diogelwch Tân yn y Cartref

· Mentrau gostwng tanau bwriadol

Ymgyrchoedd hysbysebu

## Recriwtio

Mae pob hysbyseb yn ddwyieithog (ac eithrio hysbysebion uniaith Gymraeg ar gyfer swyddi lle y mae'r Gymraeg yn hanfodol).

Mae ffurflenni pecynnau cais a deunydd darllen ategol arall yn ddwyieithog.

Mae pob swydd lle nad yw'r Gymraeg yn hanfodol yn cael ei hysbysebu fel swyddi lle y mae'r Gymraeg yn ddymunol.

Mae data monitro yn cael ei gasglu ynghylch y nifer o siaradwyr/dysgwyr Cymraeg sy'n gwneud cais am swyddi neu sy'n cael eu penodi i swyddi.

Mae staff dwyieithog ar gael mewn diwrnodau codi ymwybyddiaeth.

mae staff dwyieithog yn mynychu digwyddiadau cyhoeddus lle y mae gweithgarwch recriwtio yn digwydd.

Recriwtiaid newydd, boed y rhai mewn lifrai a heb fod mewn lofrai yn cael sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg adeg sefydlu.

**Hyfforddiant**

· Mae'r holl staff rheoli yn cael sesiwn sylfaenol gorfodol ynghylch ymdrin â galwadau Cymraeg.

· Anogir y staff i gofrestru ar gyrsiau sgiliau Cymraeg.

· Mae staff yn gallu dysgu yn ystod amser gwaith ar gyrsiau hyfforddiant mewnol neu yn cael eu cefnogi yn ariannol i gofrestru ar gyrsiau y tu allan i'r gweithle.

· System fentora ar gyfer dysgwyr Cymraeg.

· Hyfforddiant asesiad effaith yn cael ei roi i reolwyr.

· Hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer diffoddwyr tân er mwyn eu galluogi i roi cyflwyniadau ynghylch diogelwch tân mewn ysgolion.

· Swyddog Iaith Gymraeg ar weithgor ar CLlLC i ddatblygu adnoddau ar gyfer hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Trefniadaeth fewnol

· Ffurfiwyd Tîm Cymorth Sgiliau'r Iaith Gymraeg i helpu i gyflwyno gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd – menter rhannu sgiliau ar draws adrannau.

## Partneriaethau

· Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a chynnwys y Gymraeg mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth.

## Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo yn llawn i egwyddor cynnal busnes cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg ac mae'n ceisio gweithredu'r egwyddor hon yn frwdfrydig o fewn y cymunedau a wasanaethir ganddo. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gymraeg fel y'i nodir yn "Iaith Pawb" ac yn ceisio hyrwyddo'r iaith trwy fabwysiadu nifer o ddulliau sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth, cymryd camau rhagweithiol i gynnig dewis dilys o ran iaith i'r cyhoedd a phrif ffrydio'r Gymraeg ym mholisïau'r Gwasanaeth.

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi nodau fframwaith Iaith Pawb trwy gynhyrchu ei Gynllun Iaith Gymraeg, sy'n gyfraniad o bwys tuag at wireddu'r strategaeth genedlaethol ehangach honno.

Yn ôl cyfrifiad 2001, mae nifer y bobl sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar gynnydd, yn enwedig o fewn y grwpiau oedran 3 – 15 oed. Fel Gwasanaeth, mae angen iddynt achub y blaen ar y cynnydd yn y galw am wasanaethau dwyieithog.

Cynhaliwyd cyfarfod â chynrychiolwyr y Gwasanaeth ar draws y rhanbarth i sefydlu cysylltiadau agosach ac i ddechrau rhannu arferion da. Trefnwyd rhaglen o gyfarfodydd at y dyfodol hefyd. Cyn gynted ag y bydd nodau ac amcanion wedi'u diffinio yn gliriach efallai y bydd yn briodol cyfarfod ag Alun Pugh AC y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg er mwyn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer codi proffil y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth ymdrin â materion y Gymraeg. Cynhelir cyfarfod hefyd â Phrif Weithredwr Bwrdd yr iaith Gymraeg i drafod y posibilrwydd o gysoni Cynlluniau Iaith Gymraeg a datblygu strategaethau ieithyddol.

Mae'r Gwasanaeth yn anelu at gysoni ac ychwanegu grym at faterion yr iaith Gymraeg trwy ganolbwyntio ar y prif themâu sef Polisïau, Cyflwyno Gwasanaethau, Delwedd Gyhoeddus a Materion y Gweithlu. Trwy gydnabod y dyletswyddau moesol a chyfreithiol i fodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod manteision gwasanaeth cadarnhaol i'w cael trwy gynnal busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd amcanion Awdurdodau Tân ac Achub – mae mater yr iaith yn hanfodol i'w llwyddiant.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod ei ddyletswydd hefyd tuag at ei staff ei hun hefyd, y mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yng Nghymru, ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol a diwylliannol eu cymunedau.

## Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol

Mae'r Is-adran Diogelwch Cymunedol (CSD) yn sicrhau bod strategaethau, llythyrau ymgynghori a chanllawiau yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Mae hysbysebion, pecynnau cais, ffurflenni a deunydd darllen ategol arall i gyd yn ddwyieithog ac anogir y staff i fynychu cyrsiau Cymraeg.

Sefydlwyd trefniadau i ymdrin ag ymholiadau, ar lafar ac ar bapur, oddi wrth unigolion a grwpiau sy'n dewis sgwrsio yn Gymraeg (ceir tri siaradwr Cymraeg o fewn yr Is-adran). Mae'r holl ohebiaeth a ddaw i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac mae siaradwyr dwyieithog ar gael o fewn yr Is-adran i helpu gydag ymholiadau arferol. Mae CSD hefyd yn darganfod ymlaen llaw beth yw iaith ddewisol y rhai sy'n mynychu cynadleddau a drefnir gan yr Is-adran ac ar gyfer digwyddiadau mawr mae bob amser yn darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd.

Ar adegau bydd CSD yn cyfieithu cyhoeddiadau technegol a anelir at gynulleidfa broffesiynol gul, er y byddai'r polisi yn caniatáu eithriad rhag eu cyfieithu. Diben hyn yw sicrhau bod dogfennau yn cael eu gosod yn y cyd-destun cywir o ran yr iaith Gymraeg a chynhyrchu gwaith sy'n cefnogi defnydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn llawn.

## CAFCASS Cymru

Mae caniatáu i bobl ddefnyddio'r iaith y maent yn teimlo fwyaf cyfforddus gyda hi yn hanfodol yn y pen draw ar gyfer ansawdd a llwyddiant y gwasanaethau a gynigir. Mae cyfathrebu effeithiol wrth wraidd gwaith CAFCASS CYMRU o ddydd i ddydd ac mae'n bwysig dwyn mewn cof nad mater o 'naill ai/neu' yw pa iaith y mae pobl yn dewis ei defnyddio. Bydd y dewis yn amrywio yn ôl amgylchiadau, natur yr hyn sy'n cael ei drafod neu â phwy y mae'r person yn siarad.

Mewn sefyllfaoedd emosiynol, iaith y cartref, yn aml, fydd yr iaith y mae pobl yn teimlo eu bod yn mynegi eu hunain orau ynddi. O ran dewis rhwng defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg gallai dewis unigolyn amrywio yn ôl y sefyllfa, sef a yw'n siarad, yn darllen neu'n ysgrifennu. Mae deunydd ysgrifenedig dwyieithog yn cynnig cyfle i unigolion ddewis pa iaith y maent yn dymuno ei darllen ac yn achos teuluoedd mae'n cynnig dewis o fewn y cartref.

Felly, mae sicrhau cydymffurfiad â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Iaith Pawb yn arbennig o berthnasol ac yn bwysig i CAFCASS CYMRU a'r gwasanaethau a ddarperir.

Sefydlwyd trefniadau i ddelio ag ymholiadau, ar lafar ac ar bapur, oddi wrth unigolion a grwpiau y byddai orau ganddynt sgwrsio yn Gymraeg. Mae pob gohebiaeth a ddaw i law yn Gymraeg yn cael ei

hateb yn Gymraeg. Pa fyddom yn gwybod ymlaen llaw ei bod yn well gan unigolyn neu grp sgwrsio yn Gymraeg, byddwn yn cysylltu â hwy yn Gymraeg/yn ddwyieithog.

Mae'r angen am staff Cymraeg a gwasanaethau dwyieithog yn fwy, yn ôl pob tebyg, yn CAFCASS CYMRU nag mewn adrannau eraill, felly mae gan CAFCASS CYMRU ei gyfieithydd Cymraeg ei hun (Rheolwr yr iaith Gymraeg ac Amrywiaeth) am bob math o ddogfennau, i ddarparu gwasanaeth dwyieithog o safon.

Lle y mae sgiliau yn y Gymraeg yn gymwys i waith swydd, bydd cynlluniau rheoli perfformiad staff yn nodi amcanion sy'n cysylltu perfformiad unigolyn â gofynion y Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg Adrannol.

Sut y mae CAFCASS CYMRU yn prif ffrydio'r Gymraeg

Polisïau a mentrau newydd – Bydd CAFCASS CYMRU yn sicrhau bod agweddau polisi o ran y Gymraeg yn cael eu prif ffrydio yng ngwaith yr Is-adran.

Partneriaethau – wrth weithio gyda phartneriaid, bydd CAFCASS CYMRU yn sicrhau bod deunyddiau a anelir at y cyhoedd yn ddwyieithog, e.e. Prosiect Peilot ar Ddatrys Anghydfod Teuluol yn Llys Caernarfon.

Canllawiau a Chylchlythyron – bydd yr holl gylchlythyrau a chanllawiau yn tynnu sylw at yr ystyriaethau perthnasol o ran y Gymraeg, a byddant yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn ddwyieithog, gan gynnwys llythyr newyddion misol CAFCASS CYMRU i'r staff.

Cyfarfodydd/cynadleddau/seminarau – Bydd CAFCASS CYMRU yn darganfod ymlaen llaw iaith ddewisol y rhai a fydd yn bresennol o ran iaith a bydd yn parchu canllawiau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn ddwyieithog a byddant yn nodi y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael, os bydd ei angen.

Mae Rheolwr yr Iaith Gymraeg ac Amrywiaeth yn ymgymryd â hyfforddiant i'w galluogi i ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau o'r fath.

Ymdrinnir â chwynion yn unol â Pholisi Cwynion a Sylwadau CAFCASS CYMRU, ac Adran 9 o Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw faterion ariannol yn gysylltiedig â'r papur hwn.

Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Pwnc

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi hynt y gwaith.

**Edwina Hart AM MBE, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
**Cyswllt: Emyr Roberts, Cyfarwyddwr, yr Adran dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 02920 823634**